Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 289 –26 Mai 2006
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 26 Mai 2006.

Adroddiad Y Cadeirydd
Cyfarfod Cyhoeddus Castell Nedd
Diolchwyd i bawb a fynychodd y cyfarfod cyhoeddus yng Nghastell Nedd. Roedd wedi bod yn un llwyddiannus.

Nodwyd y pwyntiau canlynol gan y Cadeirydd:
- Negydu ar y bartneriaeth strategol gyda'r BBC.
- Mynegwyd canmoliaeth uchel iawn i ddelwedd newydd y cylchgrawn "Sgrin" a'r llyfryn "Arfordir". Roedd pawb yn cytuno bod y safon yn uchel a rhagorol. Ychwanegodd bod angen gwneud yn siwr fod yna ddosbarthiad eang

Adroddiad Cwynion
Cymeradwyodd yr Awdurdod i apwyntio Thompson Foundation / Uned Fonitro Aberystwyth.

Yn dilyn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, bydd y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yr Awdurdod yn cyfarfod mis Mehefin i drafod cwyn Cyngor Sir Gwynedd.

Cynllun Iaith S4C
Cymeradwyodd yr Awdurdod i gyhoeddi'r Cynllun Iaith newydd.

Adroddiad Prif Weithredwr
Codwyd/nodwyd y pwyntiau canlynol:-
- **Diwrnod Sgiliau Cenedlaethol** - diwrnod llwyddiannus dros ben.
- **Cyfarwyddwr Cyfathrebu** - hysbyseb wedi ymddangos yn y wasg.
- **Botwm Coch** - nodwyd bod S4C yn lansio gwasanaethau botwm coch yn Eisteddfod yr Urdd.

Adroddiad Monitro 2005
Cymeradwyd yr Adroddiad Monitro. Rhoddwyd ganmoliaeth am gyflawni dros 90% o'r targedau. Mae'r Cynllun Monitro ar wefan S4C.

Cynllun Corfforaethol 2006-2009 - Cytunwyd i gymeradwyo a chyhoeddi'r ddogfen ar ei newydd wedd ar wefan S4C.

Materion Eraill
Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Ymchwil